Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales










# Bwletin

**Progress through Partnership**
Cynnydd trwy Gydweithio

GAEAF | WINTER 2018-19











www.hybucig.cymru | www.meatpromotion.wales | eatwelshlambandwelshbeef.com | hcctrade.com | porc.wales

**INSIDE: Crucial new investment to help our industry through changing times**

**TU FEWN: Buddsoddiad hollbwysig er mwyn rhoi cymorth i'n diwydiant trwy adeg o newid**

# Leadership for the **post-Brexit era**

**As I write, the final outcomes of the Brexit negotiations are still unknown. The fate of our exports is still unclear and the March 29, 2019 deadline day is just a few months away.**

HCC cannot control this political process but where we have influence you can be assured we will strive to ensure our industry has a sustainable future and a critical mass of production.

Our industry-designed Vision 2025 is our agricultural armour. Its reasoned and resonant arguments offer a route map for sustainability, resilience and regeneration.

This detailed plan requires a substantial investment and this year, in addition to industry levy funds, HCC has been awarded £9.2m Rural Development Programme investment (details opposite), £1.5m extra export support and £2.15m for farm benchmarking activity from Welsh Government. It will help us to expand, support vital activities post Brexit and defend our industry's core principles and commercial roots.




However, the greatest support remains your support, the support of our stakeholders. It contributes greatly to HCC's authority and empowers the leadership actions increasingly needed to drive domestic demand and expand exports.

Whatever happens with Brexit, these remain very exciting times. In this new era, HCC will seek out and build new international markets and at home. We must – and will – put Welsh red meat at the heart of all Welsh and UK policy and economic platforms, from diet, health and nutrition work to influencing public sector food procurement and fighting for food and food preparation to be taught in our schools.

**Kevin Roberts**
Chairman HCC

# Arweiniad ar gyfer **y cyfnod wedi Brexit**

**Wrth i mi ysgrifennu, does dim sicrwydd am ganlyniad terfynol trafodaethau Brexit. Mae tynged ein allforion yn aneglur ac mae'r dyddiad tyngedfenol sef Mawrth 29, 2019 yn agosáu.**

Ni all HCC reoli'r broses yma ond lle gallwn ddylanwadu rwy'n addo y byddwn yn ceisio sicrhau dyfodol gynaliadwy a llewyrchus i'n diwydiant.

Mae'r ddogfen Gweledigaeth 2025 yn ein harfogi. Mae'r dadleuon a'r dystiolaeth sydd tu cefn iddynt yn cynnig ffordd ymlaen ar gyfer cynaliadwyedd, gwytnwch ac adfywiad.

Mae'r cynllun manwl yma yn golygu buddsoddiad ac eleni, yn atodol i arian ardoll, mae HCC wedi derbyn £9.2m o gyllid o'r Cynllun Datblygu Gwledig (manylion gyferbyn), £1.5m yn ychwanegol i hybu allforion a £2.15m ar gyfer meincnodi busnesau fferm oddi wrth Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu ni i ehangu ystod ein gweithgareddau, cefnogi'r sector trwy Brexit ac amddiffyn gwreiddiau masnachol ein diwydiant.

Ond y gefnogaeth bwysicaf yw'ch cefnogaeth chi, cefnogaeth ein rhan-ddeiliaid. Mae'n cyfrannu'n fawr at ddylanwad HCC ac yn ein harfogi i gynnig yr arweiniad fydd ei angen i sicrhau marchnadoedd tramor a gyrru'r galw yn y farchnad gartref.

Beth bynnag fydd yn digwydd gyda Brexit, mae'n adeg cyffrous. Yn y cyfnod newydd, bydd rhaid i HCC chwilio ac adeiladu marchnadoedd newydd gartref a thramor. Bydd rhaid i ni roi cig coch Cymru wrth galon penderfyniadau polisi Cymru a Phrydain, o waith ar ddeiet a maeth i ddylanwadu ar gaffael cyhoeddus a phwyso am addysg bwyd briodol o fewn ein hysgolion.

**Kevin Roberts**
Cadeirydd Hybu Cig Cymru

Stay in touch with the industry
Market prices, latest news and more at **www.meatpromotion.wales**

Cadwch mewn cyswllt â'r diwydiant
Prisiau'r farchnad, newyddion a mwy o **www.hybucig.cymru**

@HybuCigCymru



## HCC Given Green Light for £9.2m Supply Chain Boost

Welsh Government has appointed HCC to lead a new five-year, £9.2 million Red Meat Development Programme to help Welsh farming and processing prepare for a post-Brexit world.

The programme will seek to lift productivity, improve animal health and genetics and ensure that future red meat production meets the demands of an ever-changing and increasingly discerning consumer.

## HCC yn Cychwyn ar Gynllun £9.2m i Hybu'r Gadwyn Gyflenwi

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymddiried yn HCC i arwain Rhaglen Datblygu Cig Coch sydd werth £9.2m dros bum mlynedd i helpu amaeth a phrosesu yng Nghymru i baratoi at y dyfodol.

Bydd y rhaglen yn ceisio codi proffidioldeb, gwella iechyd anifeiliaid a geneteg a sicrhau fod ein cynnyrch cig coch yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid sy'n newid yn barhaus.

## Animal Health

HCC will bring together up to 500 sheep and beef producers across Wales, with the support of partner organisations and vets, in order to enhance flock and herd health planning in a way that will:

- improve farm sustainability
- help returns and business development
- extend already high welfare standards
- increase consumer confidence

As positive change evolves, the project will build a valuable industry resource of recorded impacts on health status, performance and production efficiency.

## Iechyd Anifeiliaid

Bydd HCC yn dod â hyd at 500 o ffermwyr defaid a gwartheg ynghyd, gyda chymorth partneriaid a milfeddygon, er mwyn rhoi hwb i gynllunio iechyd anifeiliaid mewn ffordd fydd yn:

- gwella cynaliadwyedd ffermydd
- cynyddu incwm a datblygu busnesau
- rhoi hwb ychwanegol i safonau lles
- cynyddu hyder y cwsmer

Wrth i'r newidiadau hyn esblygu, bydd y prosiect yn adeiladu cofnod gwerthfawr ar gyfer y diwydiant o statws iechyd, perfformiad a chynhyrchiant effeithlon.

## Eating Quality

The excellent production values of Welsh livestock farmers have helped make the taste of premium PGI Welsh Lamb a global sector leader. Discerning diners from Canada to Hong Kong search out the recognisable and well-respected brand for special occasions and events to impress.

HCC has driven much work across the supply chain to sustain and elevate Welsh Lamb's quality reputation – but there is always room for improvement.

This project seeks to identify any eating quality variations from within the supply chain along with impacts on taste of seasonality, environment and other factors, and then aid the development of a blueprint to ensure a consistent and exemplary product that meets the tastes of consumers wherever they dine.

## Safon Bwyta

Mae gwerthoedd craidd ffermwyr Cymru wedi helpu i wneud Cig Oen Cymru PGI yn flas sy'n ennyn parch yn fyd-eang. Mae cwsmeriaid o Ganada i Hong Kong yn chwilio am y brand premiwm hwn sydd ag enw da ar gyfer digwyddiadau nodedig.

Mae HCC wedi arwain sawl agwedd o waith ar hyd y gadwyn gyflenwi er mwyn saernïo enw da Cig Oen Cymru am safon uchel – ond mae wastad lle i wella.

Mae'r prosiect yma yn ceisio adnabod unrhyw amrywiaeth mewn safon bwyta o fewn y gadwyn gyflenwi ynghyd ag effaith elfennau fel y tymor a'r amgylchedd, ac yna helpu i ddatblygu cynllun i sicrhau cynnyrch cyson a gwych a fydd yn cwrdd â gofynion cwsmeriaid lle bynnag y bont.

## Genetics

HCC has championed genetic improvement for our sheep and beef farmers for more than a decade.

Valuable gains have been achieved, particularly in lower altitude holdings, but nearly three in four Welsh lambs are reared in hill environments that are officially described as "severely disadvantaged" landscapes for livestock production.

This has led to gaps in genetic data and limited efficiency gains for businesses that farm in some of the most challenging environments.

HCC will lead a pioneering and practical project to record, compare and use genetic analysis previously unavailable on 35 upland and hill farms to seek to improve yield, add value to these farm businesses, meet modern consumer demand and widen market opportunities.

## Geneteg

Ers dros ddegawd bu HCC yn annog gwelliannau geneteg ymhlith defaid a gwartheg yng Nghymru.

Gwelwyd enillion pwysig, yn enwedig o fewn ffermydd tir isel, ond mae tri-chwarter o ŵyn Cymru yn cael eu magu ar diroedd uchel sy'n cael ei ddisgrifio fel ardaloedd "dan anfantais sylweddol" i fagu anifeiliaid.

Mae hyn wedi arwain at fylchau yn y data geneteg ac enillion llai ar gyfer busnesau sy'n amaethu'n tirwedd mwyaf heriol.

Bydd HCC yn arwain prosiect uchelgeisiol ac ymarferol i gofnodi, cymharu ac astudio geneteg ar 35 o ffermydd yn yr ucheldir er mwyn gwella cynhyrchiant, ychwanegu gwerth i'r busnes, cwrdd â gofynion y cwsmer modern ac ehangu cyfleon y farchnad.

## Marked Difference

A maximum 2,000 farmers are expected to take advantage of a Welsh Government funded trailblazing Red Meat Benchmarking project by the time applications close on December 10.

For submitting business data online, a written analysis of the evaluation of their performance against others in the sector will be provided and a £1,000 payment to compensate for their time and effort.

## Mesur y Gwahaniaeth

Disgwylir i hyd at 2,000 o ffermwyr i gymryd mantais o gynllun Meincnodi Cig Coch uchelgeisiol a ariennir gan Lywodraeth Cymru erbyn i geisiadau gau ar Ragfyr 10.

Am fewnbynnu data ar-lein, bydd dadansoddiad manwl fydd yn gwerthuso'u perfformiad yn erbyn busnesau tebyg o fewn y sector yn cael ei ddarparu, ynghyd â thaliad o £1,000 i'w digolledu am eu hamser a'u hymdrech.

HYBU CIG CYMRU
MEAT PROMOTION WALES

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Giving UK Consumers **a Taste of Wales**

Over the summer and autumn of 2018, HCC has been out and about offering samples to consumers of the most delicious PGI Welsh Lamb, PGI Welsh Beef and pork from Wales.

In our target markets across Wales and England, shoppers have been loving the great flavour, and picking up new recipe ideas and information from where to source excellent Welsh meat.

The roadshow events are part of a wider campaign, including PR work, promotions with retailers and social media marketing.

# Rhoi Blas ar Gymru i Gwsmeriaid Prydain

Dros haf a hydref 2018, bu HCC ar daith yn cynnig samplau blasus i gwsmeriaid o Gig Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI a phorc o Gymru.

Ar draws ein marchnadoedd pwysig yng Nghymru a Lloegr, bu cwsmeriaid wrth eu bodd gyda'r blas gwych, ac hefyd cawsant gyfle i godi ryseitiau a gwybodaeth ar lle i brynu'r cig Cymreig gorau.

Mae'r digwyddiadau teithiol yma yn rhan o ymgyrch ehangach, gan gynnwys gwaith yn y wasg, hyrwyddo ar y cyd â manwerthwyr a marchnata ar gyfryngau cymdeithasol.



'Lambassador' Chris Roberts' Asado was a major draw at many foody events

Bu Chris Roberts a'i Asado yn atyniad mawr mewn sawl gŵyl fwyd



The huge Countryfile Live show was an opportunity to meet thousands of consumers

Roedd sioe enfawr Countryfile Live yn gyfle i gwrdd â miloedd o gwsmeriaid




Our Welsh Lamb campervan was a hit in Manchester

Roedd pobl Manceinion wrth eu bodd â'r fan Cig Oen Cymru




Award-winning pork went down a treat in Cardiff

Roedd porc bendigedig at ddant pobl Caerdydd




Consumers picked up samples and recipe ideas at supermarkets

Bu cwsmeriaid yn blasu'r cig a chodi taflenni ryseitiau mewn archfarchnadoedd



London shoppers liked what they tasted and wanted more!

Roedd cwsmeriaid Llundain yn hoffi'r hyn oedden nhw'n ei flasu!

# Done Deals

Exports are essential to a sustainable and profitable red meat industry in Wales with sales of PGI Welsh Lamb alone worth more than £130m a year.

So HCC's marketing team targets key industry events and utilises a network of agents to put together Wales' top producers and processors with leading international buyers.

Breakthrough activity in the past few months includes securing new Asian outlets following talks at FHA Singapore (pictured) and exploring new business opportunities in a range of countries such as Qatar, Belgium and France.




# Taro Bargen

Mae allforion yn hanfodol i ddiwydiant cig coch proffidiol yng Nghymru ac mae gwerthiant Cig Oen Cymru PGI dramor eisoes werth mwy na £130m y flwyddyn.

Felly mae tîm marchnata HCC yn targedu digwyddiadau masnach pwysig ac yn defnyddio rhwydwaith o asiantau er mwyn cyflwyno cynhyrchwyr a phroseswyr o Gymru i brynwyr rhyngwladol.

Yn y misoedd diwethaf bu llwyddiant wrth sicrhau cwsmeriaid newydd yn Asia yn dilyn trafodaethau yng ngŵyl FHA Singapore (yn y llun), ynghyd ag archwilio cyfleon busnes newydd yn Qatar, Gwlad Belg a Ffrainc.

# Nutritional goals

HCC actively promotes the diet, health and nutritional benefits of red meat's place at the heart of the balanced plate and always seeks new ways to get these important messages across.

Here Welsh rugby international scrum-half Gareth Davies plays a pivotal role at the Royal Welsh Show in July as HCC passes on information and tasty titbits to media and consumers.

HCC supports grassroots rugby as part of its PGI Welsh Beef campaign and will be taking part in a UK-wide promotion on red meat and nutrition over the Winter.




# Heriau iechyd

Mae HCC yn benderfynol o hybu manteision iechyd cig coch fel rhan o ddeiet gytbwys ac yn chwilio'n barhaus am ffyrdd i gyflwyno'r neges yma mewn ffyrdd newydd.

Yma mae mewnwr rhyngwladol Cymru Gareth Davies yn chwarae'i ran yn y Sioe Frenhinol wrth i HCC gyflwyno gwybodaeth a samplau blasus i'r wasg ac i gwsmeriaid.

Mae HCC yn cefnogi rygbi ar lawr gwlad trwy ymgyrchoedd Cig Eidion Cymru PGI a bydd hefyd yn cymryd rhan mewn menter hyrwyddo ar draws Brydain ar thema manteision iechyd cig coch dros y gaeaf.